

## Datganiad Polisi ar Reoli Asedau

Bwriad y Polisi hwn yw amlinellu'r canllawiau a'r arferion sy'n ymwneud â phenderfyniadau ym maes rheoli asedau er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni gweledigaeth Dŵr Cymru 2050, sef 'ennill ffydd ein cwsmeriaid bob dydd'. Fe wnawn hyn trwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o safon uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n cwrmpas.

Mae'r Polisi hwn yn dylanwadu'n drwm ar ein prosesau cynllunio rheoliadol ac mae'n berthnasol i'r holl weithgareddau cylch oes ar draws asedau Dŵr Cymru. Mae'r Polisi'n berthnasol i bob gweithiwr, contractwr, ac ymgynghorydd.

## Y Bwriad

Mae Dŵr Cymru'n ymrwymo i sicrhau bod ei gwsmeriaid yn derbyn gwasanaeth diogel, dibynadwy a gwydn sy'n bodloni eu holl anghenion a disgwyliadau, a hynny am bris fforddiadwy. Bwriad y Polisi yw sicrhau bod yr holl weithwyr a swyddogaethau'n gyson â'r nodau hyn, a sicrhau bod yr asedau'n cael eu rheoli mewn ffordd sy'n darparu'r manteision mwyaf, yn lleihau risgiau, ac yn darparu gwasanaethau o lefel foddhaol i'r cwsmeriaid mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy.

### Fe gyflawnwn ni hyn trwy:

- Ymrwymo i gydymffurfio â'r gofynion statudol a rheoleiddiol cyfredol perthnasol ynghyd â'r gofynion eraill y mae'r busnes o'r farn eu bod yn angenrheidiol.
- Ymgynghori â'n cwsmeriaid ac eraill sydd â buddiant ynghylch eu hanghenion a'u disgwyliadau nawr ac at y dyfodol.
- Gwneud gwelliannau parhaus i'n System Rheoli Asedau sy'n cael ei lywio gan wasanaethu cwsmeriaid, sy'n flaengar ac sy'n seiliedig ar ddeilliannau wrth gadw pwyslais ar sicrhau'r gost gydol oes orau ar gyfer ein hasedau.
- Gwella'n dulliau o glustnodi a rheoli risgiau, pennu strategaeth a chynllunio, gwneud penderfyniadau, gwybodaeth am asedau a chyflawni cyfalaf yn barhaus.
- Gweithredu a gwella ein system Rheoli Asedau fel fframwaith ar gyfer pennu a chyflawni ein hymatebion strategol, ein Hamcanion Rheoli Aeddfedrwydd Asedau, ein strategaethau a'n cynlluniau sydd i gyd yn seiliedig ar ddulliau arloesol o weithio.
- Ymrwymo i sicrhau bod digon o adnoddau cymwys yn bodloni i ddatblygu, gweithredu a gwella'r System Rheoli Asedau yn barhaus.
- Sicrhau bod ein System Rheoli Asedau'n gyson â pholisïau eraill Dŵr Cymru, gan gynnwys y polisïau lechyd a Diogelwch, Cynaliadwyedd, Amgylcheddol, Rheoli Ansawdd ac Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae Dŵr Cymru wedi sefydlu ymatebion strategol, Amcanion Rheoli Aeddfedrwydd Asedau a thargedau Rhyng AMP sy'n cael eu cysoni, eu dogfennu a'u hadolygu trwy Dŵr Cymru 2050, y Cynlluniau Busnes, a'r Adroddiadau Blyneddol ar Berfformiad. Caiff perfformiad y System Rheoli Asedau ei adolygu hefyd trwy adolygiadau annibynnol aml yn unol ag ISO55001:2014 Ardystio Rheoli Asedau.

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r Polisi hwn, a'r Cyfarwyddwr Cynllunio Asedau sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o weithredu'r Polisi ar draws y sefydliad. Caiff y Polisi ei gyfleu i'r Rhai sydd â Buddiant, i holl gydweithwyr Dŵr Cymru ac i bawb sy'n gweithio ar ran Dŵr Cymru, gan gynnwys cyflenwyr a chontractwyr.

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol a phan fo newidiadau arwyddocaol a/neu berthnasol yn codi.



**Peter Perry**

Prif Weithredwr | Dŵr Cymru

Ebrill 2024